

Rhagair

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) 2008 – 2012 ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Dyma oedd ail Gynllun yr ASB ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 4 Mehefin 2008.

Ers hynny, mae'r ASB wedi bod wrthi'n ddygn yn rhoi'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar waith. Nod y Cynllun Gweithredu yw gwneud yn siŵr bod yr ASB yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cynllun Iaith erbyn 2012. Ar 1 Ebrill 2010, unodd y Gwasanaeth Hylendid Cig (yr MHS), asiantaeth weithredol i'r ASB, yn ffurfiol â'r ASB. Ymysg pethau eraill, mae hyn yn effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg eu darparu gan y sefydliad integredig hwn. Gyda chytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae hen Gynllun Iaith yr MHS wedi'i ddirwyn i ben ac mae cynllun yr ASB wedi'i ymestyn i faes darparu gwasanaethau hylendid cig yng Nghymru.

Felly, adolygwyd Cynllun Iaith cyfredol yr ASB ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31/03/2010.

Cymeradwywyd y Cynllun o dan Adran 14 of Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cefndir yr MHS:

Sefydlwyd yr MHS ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol i'r hen Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan ddod yn gyfrifol am ddyletswyddau archwilio cig ar safleoedd cig ffres ar gyfer rhyw 300 o awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rôl yr MHS yw helpu i wneud yn siŵr bod y diwydiant cig yn diogelu iechyd y cyhoedd yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid wrth iddynt fynd i'w lladd. Mae'r MHS yn gwneud hyn drwy ddarparu rheolaethau swyddogol mewn safleoedd cig ffres a gymeradwywyd. Mae'r rheolaethau hyn yn gofyn am gynnal archwiliadau penodol ar bob anifail, carcass ac offal drwy gyfrwng archwiliadau seiliedig ar risg i wirio bod y safle cig ffres a gymeradwywyd yn cydymffurfio â Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE. Mae'r MHS yn cynnal y rheolaethau hyn mewn lladd-dai, ffatrioedd torri cig, cyfleusterau helgig gwyllt a helgig wedi'i ffermio a safleoedd cynhyrchion cig a briwrig a gytleolir. Mae'n ddyletswydd statudol ar yr MHS i ddarparu'r gwasanaethau hyn ar gais, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Ar 1 Ebrill 2000, daeth yr MHS yn asiantaeth weithredol i'r ASB. Ar 1 Ebrill 2010, diddymwyd yr MHS fel asiantaeth weithredol gan ddod yn rhan o Grŵp Gweithrediadau'r ASB.

O 1 Ebrill 2010 ymlaen, mae ymrwymadau'r MHS fel y'u nodwyd yn ei Gynllun Iaith Gymraeg wedi'u trosglwyddo i'r ASB. Felly bydd yr ASB ar ei newydd wedd bellach yn dilyn Cynllun Iaith Gymraeg yr ASB, a reolir gan Uned Iaith Gymraeg yr ASB, a leolir yng Nghaerdydd. Bydd yr egwyddorion a'r gweithdrefnau yn berthnasol i bob un ar draws y strwythur newydd. Fel yn y gorffennol, bydd holl gyswllt yr ASB â'r 'cyhoedd' yn cael ei asesu yng ngoleuni System Flaenoriaethu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

O'r dyddiad hwn ymlaen, bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn trafod anghenion y Grŵp Gweithrediadau newydd o ran y Gymraeg gyda staff ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn dilyn y camau a nodir yng Nghynllun Gweithredu yr Uned Iaith fel bod yr ASB (gan gynnwys ei Grŵp Gweithrediadau newydd) yn dod i gydymffurfio'n llwyr gyda'i Gynllun Iaith erbyn diwedd 2012.

Gyda phleser mawr, dyma gyflwyno'r Cynllun Iaith Gymraeg (2008 – 2012) ar ei newydd wedd ar draws yr ASB gyfan.

TIM J SMITH

Prif Weithredwr, Asiantaeth Safonau Bwyd

01 Ebrill 2010